# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 8 Hydref 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5849

# 232(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2. Gofynnodd Rhun ap Iorwerth gwestiynau ar ran Plaid Cymru.

Atebodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y 5 cwestiwn am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.43

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dechreuodd yr eitem am 14.59

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Digartrefedd

Dechreuodd yr eitem am 15.46

## 5 Datganiad gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Teithio Rhatach

Dechreuodd yr eitem am 16.22

## 6 Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Dechreuodd yr eitem am 17.16

**NDM7154** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Medi 2019.

**Dogfennau Atodol**
Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Gemau'r Gymanwlad Birmingham

Dechreuodd yr eitem am 17.18

**NDM7156** – Yr Arglwydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham

**Dogfennau Atodol**
Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.21

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 9 Hydref 2019**